

Meini Prawf Ariannu:

Cronfa Addysg Plwyf Rudbaxton

Nod Cronfa Addysg Plwyf Rudbaxton yw hyrwyddo addysg plant a phobl ifanc hyd at 25 mlwydd oed sy'n byw ym mhlwyf Rudbaxton, Sir Benfro.

Mae grantiau i unigolion ar gael er mwyn:

- Talu costau myfyrwyr mewn addysg bellach/addysg uwch
- Cefnogi disgyblion ysgol gyda deunyddiau, cyfarpar a gweithgareddau/tripiau

Gall enghreifftiau gynnwys: bwrsariaethau prifysgolion, cyfarpar/deunyddiau ar gyfer cyrsiau addysg uwch, costau teithio i goleg, ffioedd cyrsiau (lle nad oes mathau eraill o gymorth ar gael, ee benthyciadau i fyfyrwyr.)

Mae grantiau i fudiadau ar gael er mwyn:

- Costau rhedeg prosiectau
- Môn-waith cyfalaf
- Prynu cyfarpar a deunyddiau
- Cyfrannu at gostau deunyddiau, tripiau a gwibdeithiau addysgol

Gall enghreifftiau gynnwys: menter ieuenctid yn y gymuned, rhaglen addysg gymunedol, clybiau gwyliau a gwibdeithiau addysgol.

Grantiau ar gael

- Gall unigolion ymgeisio am grantiau o hyd at £1,000 y flwyddyn
- Gall mudiadau ymgeisio am grantiau o hyd at £2,000 y flwyddyn

Pwy a all ymgeisio?

- Unigolion o dan 25 mlwydd oed sy'n byw ym Mhlwyf Rudbaxton;
- Grwpiau cymunedol/gwirfoddol ac elusennau lleol sydd naill ai wedi'u lleoli yn Rudbaxton neu y mae'u gwaith o fudd uniongyrchol i unigolion iau na 25 mlwydd oed sy'n byw yn Rudbaxton. Gall ysgolion a Chymdeithasau Rhieni ac Athrawon ymgeisio ond dim ond am brosiectau a ddaw y tu allan i ddarpariaeth statudol.

Sut i ymgeisio?

Mae'n rhaid i bob ymgeisydd gwblhau ffurflen gais drwy wefan Sefydliad Cymunedol Cymru. Os ydych chi'n ymgeisio fel unigolyn, bydd raid llawr lwytho'r ddogfen Word o'r wefan i'w chwblhau.

Gellir e-bostio ceisiadau i grants@communityfoundationwales.org.uk

Nodwch, os gwelwch yn dda:

- Bydd yn rhaid i unrhyw ymgeiswyr unigol o dan 16 oed gael rhiant neu warcheidwad i gwblhau'r ffurflen gais.
- Ystyrir ceisiadau ddwywaith y flwyddyn a'r dyddiadau cau blyneddol yw'r 28ain o Chwefror a'r 31ain o Awst.